

# Gwasanaeth Hebryngwyr Ysgol - Gweithdrefn COVID-19



Gofynnwn i chi bob amser gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr o'r Hebryngwr Croesfannau Ysgol. Mae negeseuon atgoffa wedi cael eu rhoi ar nifer o'n safleoedd i'ch helpu chi i gadw at y rheol 2 fetr.

Gweithdrefn ar gyfer croesi

Dylech bob amser ddilyn cyfarwyddiadau'r Hebryngwr Croesfannau Ysgol.

Arhoswch ar ymyl y palmant y tu ôl i'r cwrbyn nes i chi gael cyfarwyddyd i groesi.

Cadwch fwlch o 2 fetr rhyngoch chi a'r teulu o'ch blaen. Gall y weithdrefn groesi gymryd ychydig yn hirach nag arfer.

Croeswch y ffordd mewn llinell syth gan gadw bwlch o 2 fetr rhyngoch chi a'r Hebryngwr Croesfannau Ysgol.

Dylech ddal dwylo plant iau.

Dylid dod oddi ar sgwteri a beiciau a'u gwthio ar draws y ffordd.

Llinellau melyn igam-ogam a pharcio

Parciwch i ffwrdd o'r ysgol a cherdded, sgwtera neu feicio os gallwch. Os nad ydych yn gallu cerdded y daith gyfan, yna parciwch i ffwrdd o'r fynedfa a cherddwch y 5-10 munud olaf o'ch taith i'r ysgol.

**Diolch i chi am eich cymorth yn ystod y cyfnod o ddychwelyd i'r ysgol.**



**DIOGELU CYMRU**  
KEEP WALES SAFE



Cyngor Sir Gâr  
**Carmarthenshire**  
County Council

